Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU
NHS WALES

# Fframwaith Profiad Pobl

Dyddiad adolygu: Awst 2028

llyw.cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **4** | Nod |
| **4** | Cwmpas |
| **4** | Beth yw ‘Profiad Pobl’? |
| **5** | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal |
| **6** | Dyletswydd Ansawdd – Safon Ansawdd sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn |
| **6** | Dylid ystyried egwyddorion Profiad Pobl yn unol â’r Ddyletswydd Ansawdd |
| **7** | Defnyddio Profiad Pobl, Ymgysylltu, Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion (PREMs) a’r Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMs) — a’r gwahaniaethau rhyngddynt |
| **7** | Defnydd o Fesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion (PREMs) |
| **8** | Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMs) |
| **9** | Arolygon Cenedlaethol Profiad Pobl |
| **10** | Profiad Pobl (cwestiynau craidd) |
| **11** | Sgorio a meincnodi |
| **11** | Adborth Profiad Pobl yn Lleol (Ar gyfer Gwasanaeth Penodol) |
| **11** | Gofalwyr/Teuluoedd |
| **11** | Monitro Cydraddoldeb |
| **12** | Gwerthoedd a phrofiadau staff |
| **12** | Straeon |
| **12** | Grwpiau Pobl/Profiad Bywyd |
| **13** | Cwynion |
| **13** | Digwyddiadau |
| **13** | Canmoliaeth |


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52063, ISBN digidol 978-1-83715-620-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

14 Argymhell Offeryn Hunanasesu Lleol o ran Arferion Da

16 Meysydd Hunanasesu Lleol

21 Y Gallu a'r Galluogrwydd i Gasglu Adborth yn Effeithiol

24 Dadansoddi a Thriongli

26 Defnyddio Adborth Pobl i Helpu i Wella Ansawdd a Dysgu

28 Adrodd a Chyhoeddi

29 Atodiad A: Dogfen Broses Arolygon Cenedlaethol

30 Atodiad B: Arolwg Profiad Pobl

33 Atodiad C: Monitro Cydraddoldeb

35 Atodiad D: Y Pecyn Cymorth Straeon Digidol – Defnyddio Straeon i Wella Ansawdd

## Nod

Matrics aeddfedrwydd hunanasesu yw'r fframwaith hwn. Ei nod yw grymuso sefydliadau i werthuso eu sefyllfa bresennol ac i ddatblygu cynllun gwella uchelgeisiol ar gyfer profiad pobl trwy lens Gwerth.

## Cwmpas

Bydd y fframwaith hwn yn cwmpasu'r holl wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau GIG Cymru, gan gynnwys gwasanaethau wedi'u comisiynu. Rhaid integreiddio dangosyddion ansawdd a phrofiad yn yr holl drefniadau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir, a defnyddio'r data a gesglir fel rhan o waith monitro a chydymffurfio â chontractau.

Mae'r Fframwaith Profiad Pobl yn cyd-fynd ag amrywiol reoliadau a deddfau, gan gynnwys Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011, Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010, y Strategaeth Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Mae gwrando ar brofiadau pobl a dysgu ganddynt yn elfen annatod o'r rheoliadau hyn.

## Beth yw 'Profiad Pobl'?

Profiad pobl yw 'swm yr holl ryngweithio, wedi'i siapio gan ddiwylliant y sefydliad, y staff a'r systemau'. Gellir disgrifio profiad pobl fel sut mae pobl yn teimlo wrth ddefnyddio unrhyw wasanaethau a rhaglenni a gynigir gan y GIG yng Nghymru. Boed hynny mewn ward ysbyty, apwyntiad cleifion allanol, cymryd rhan mewn rhaglenni sgrinio cenedlaethol, defnyddio gwasanaethau gofal sylfaenol (fel meddyg teulu, optometrydd, fferyllydd, deintydd), rhyngweithio ag ymarferwyr hybu iechyd, neu bresenoldeb mewn unrhyw ddigwyddiad a gynhelir gan sefydliad GIG Cymru.

Yn ei hanfod, mae'r diffiniad o brofiad pobl yn hanfodol i ganolbwyntio ar yr unigolyn ac ar y boblogaeth.

Mae integreiddio pob elfen o adborth profiad yn dibynnu ar arbenigedd ac adnoddau lleol. Fodd bynnag, mae triongli data adborth profiad ochr yn ochr â metrigau eraill, e.e. canlyniadau, fel y dangosir ar y Goeden Gwrando a Dysgu yn arwydd o sefydliad sydd wedi ymrwymo i ansawdd.

# Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal

Er mwyn ein helpu i ddeall beth mae ansawdd rhagorol yn ei olygu a sut gallwn ni ei roi ar waith yn ymarferol, mae 12 o Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal wedi'u datblygu.

Mae'r Safonau yn cynnwys y chwe pharth ansawdd a chwe galluogwr ansawdd. Y bwriad yw i'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal gael eu cymhwyso'n fras i'r ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y GIG yng Nghymru.



## Dyletswydd Ansawdd – Safon Ansawdd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Bydd ein system gofal iechyd yn diwallu anghenion pobl ac yn sicrhau bod eu dewisiadau, eu hanghenion a'u gwerthoedd yn llywio penderfyniadau a wneir mewn partneriaeth rhwng unigolion a'r gweithlu. Mae lles unigolion, eu teuluoedd, eu gofalwyr a'n staff yn bwysig i ni. Byddwn yn sicrhau bod pawb bob amser yn cael eu trin â charedigrwydd, empathi a thosturi a byddwn yn parchu eu preifatrwydd, eu hurddas a'u hawliau dynol. Rydym wedi ymrwymo i weithio'n well gyda'n gilydd i roi pobl a'u teuluoedd wrth wraidd penderfyniadau, gan eu gweld fel arbenigwyr yn cydweithio â gweithwyr proffesiynol i gael y canlyniad a'r profiad gorau.

## Dylid ystyried egwyddorion Profiad Pobl yn unol â'r Ddyletswydd Ansawdd

- Mae gan bawb sy'n defnyddio gwasanaethau, rhaglenni neu swyddogaethau GIG Cymru yr hawl i ddarparu adborth dienw yn gyflym ac yn hawdd pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.
- Mae 'profiad pobl' yn ffrwd adborth barhaus.
- Ar adegau o ofid efallai y bydd materion sensitif wrth gasglu adborth. Fodd bynnag, dylai pobl barhau i allu rhoi adborth os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny.
- Dylid defnyddio'r adborth i ddathlu ac adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda, ac i nodi meysydd lle gellid gwella pethau.
- Dylai adborth ar brofiadau pobl fod ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd mewn fformat hygyrch.
- Dylai gwybodaeth ddangos bod sefydliadau'n gwrando ar adborth ac yn gweithredu arno, e.e. 'Fe ddywedoch chi, fe wnaethon ni' a'r adroddiad Dyletswydd Ansawdd.

# Defnyddio Profiad Pobl, Ymgysylltu, Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion (PREMs) a'r Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMs) – a'r gwahaniaethau rhyngddynt

Mae ymgysylltu â phobl yn wahanol i brofiad ac adborth pobl. Er bod cysylltiad a gorgyffwrdd rhwng y ddau weithgaredd, ystyr ymgysylltu yw cyfranogiad gweithredol aelodau'r cyhoedd, cymunedau neu randdeiliaid eraill wrth gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau.

Er mwyn sicrhau blaenoriaeth i brofiad pobl, argymhellir bod gan bob sefydliad GIG Cymru Strategaeth Profiad Pobl ar waith.

# Defnydd o Fesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion (PREMs)

Mae PREMs (Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion) yn defnyddio cyfres o gwestiynau sy'n gofyn am sgôr gyffredinol neu werth mesuradwy arall. Gellir dosbarthu PREMs naill ai'n berthynol neu'n swyddogaethol. Mae PREMs perthynol yn dangos profiad y claf o'u perthnasoedd yn ystod triniaeth, a gallant fod yn benodol i glefydau e.e., ydyn nhw'n teimlo bod eraill wedi gwrando arnyn nhw? Mae PREMs swyddogaethol yn archwilio materion mwy ymarferol, fel y cyfleusterau sydd ar gael.


Er enghraifft, mae'r mesur GOFAL, holiadur perthynol, yn enghraifft o offeryn PREMs. Mae PREMs yn gofyn am sampl fawr o ymatebwyr, er mwyn cynhyrchu mesuriadau safonol sydd wedi'u crynhoi a'u dilysu a system ategol sy'n galluogi clinigwyr i weld ac ymateb i adborth PREMs unigol. Ochr yn ochr ag adborth Profiad Pobl, mae PREMs hefyd yn cefnogi effeithiolrwydd clinigol, diogelwch a gwella ansawdd, a gallant gefnogi dull seiliedig ar werth trwy gyfuno PREMs penodol i glefydau â PROMs, ond ni ddylid eu hystyried yn rhywbeth sy'n cymryd lle sgwrs am sut beth oedd defnyddio unrhyw rai o wasanaethau, swyddogaethau a rhaglenni'r GIG yng Nghymru.

# Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMs)

Yn y bôn, asesiad cyfathrebu strwythuredig yw asesiadau PROMs (mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion) rhwng y sawl sy'n derbyn gofal a'i dîm clinigol, gan gyflwyno ymatebion safonol am faich symptomau ac ansawdd bywyd. Mae PROMs yn un o'r offerynnau a ddefnyddir mewn pecyn cymorth ehangach, i ddangos tystiolaeth o ofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, er mwyn deall yn well y canlyniadau sydd bwysicaf i bobl a chleifion. Mae PROMs wedi'u cynllunio a'u gwerthuso ar gyfer symptomau sy'n ymwneud â chyflyrau penodol neu o amgylch iechyd cyffredinol ac ansawdd bywyd.

Yn ogystal â PREMs a PROMs, mae mesurau ychwanegol yn cael eu datblygu'n barhaus gan gynnwys CROMs (Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Glinigwyr) a SROMs (Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Staff).

## Coeden Gwrando, Dysgu a Gwella



# Arolygon Cenedlaethol Profiad Pobl

Mae arolygon cenedlaethol yn cael eu datblygu ar gais meysydd gwaith clinigol ac ar y cyd â Thîm Gweithrediaeth GIG Cymru. Mae proses gymeradwyo wedi'i sefydlu, (gweler Atodiad A) i gefnogi datblygu a chynnwys arolygon cenedlaethol o fewn System Profiad Unwaith i Gymru. Lle bo'n berthnasol, bydd pob sefydliad yn cymryd rhan yn y dull arolwg cenedlaethol yn unol â'r adrodd 'drwy'r amser' sy'n rhan o'r Ddyletswydd Ansawdd a rhannu â phobl a chymunedau trwy wefannau lleol, yr adborth a dderbyniwyd ac unrhyw welliannau i'r gwasanaeth yn sgil yr adborth.

Y meysydd clinigol a'r sefydliadau sy'n cefnogi'r gwaith casglu fydd yn gyfrifol o hyd am yr wybodaeth a gesglir drwy arolygon cenedlaethol. Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio hefyd ar gyfer Dangosfwrdd Ansawdd Gweithrediaeth GIG Cymru.

# Profiad Pobl (cwestiynau craidd)

Mae cyfres o gwestiynau craidd am brofiad pobl wedi'u datblygu ar gyfer Cymru. Dylid gwneud pob ymdrech i ddefnyddio'r set graidd o gwestiynau profiad pobl ym mhob arolwg profiad ac adborth, fel y'u rhestrir isod. Mewn amgylchiadau lle na all pobl sy'n derbyn gwasanaethau roi adborth uniongyrchol, dylid ystyried casglu barn teulu, ffrindiau a gofalwyr (di-dâl).

**1. Sut fyddech chi'n graddio eich profiad cyffredinol?**

- ☐ Gwael iawn
- ☐ Gwael
- ☐ Ddim yn dda nac yn wael
- ☐ Da
- ☐ Da iawn

**2. Oedd unrhyw beth arbennig o dda am eich profiad yr hoffech ddweud wrthym amdano?**

**3. Oedd unrhyw beth arbennig o ddrwg am eich profiad yr hoffech ddweud wrthym amdano?**

**4a Beth yw eich dewis iaith ar gyfer cyfathrebu?**

- ☐ Cymraeg
- ☐ Saesneg
- ☐ Pwyleg
- ☐ Rwmaneg
- ☐ Pwnjabeg
- ☐ Wrdw
- ☐ Portiwgaleg
- ☐ Sbaeneg
- ☐ Arabeg
- ☐ Bengaleg
- ☐ Gwjarati
- ☐ Eidaleg
- ☐ Iaith Arwyddion Prydain
- ☐ Arall – nodwch

**4b Oeddech chi'n gallu cyfathrebu yn eich dewis iaith?**

- ☐ Bob amser
- ☐ Fel arfer
- ☐ Weithiau
- ☐ Byth

## Sgorio a meincnodi

Cytunwyd ar strwythur sgorio Cymru Gyfan ar gyfer cwestiwn 1 seiliedig ar Likert, y dylai sefydliadau ei ddefnyddio i feincnodi, dysgu oddi wrth ei gilydd, a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd yn ysbryd y Ddyletswydd Ansawdd.

| Ymateb | Pwysoliad |
|---|---|
| Da iawn | 10 |
| Da | 7.5 |
| Ddim yn dda nac yn wael | 5 |
| Gwael | 2.5 |
| Gwael iawn | 0 |
| Ddim yn gwybod (os caiff ei gynnwys) | Amherthnasol |

## Adborth Profiad Pobl yn Lleol (Ar gyfer Gwasanaeth Penodol)

Dylai arolygon y gofynnir amdanynt yn lleol gyfeirio at y cwestiynau Profiad Pobl cenedlaethol, sydd yn Atodiad B (lle bo'n briodol). Mae'n ofynnol i'r holl arolygon profiad ac adborth lleol gynnwys y cwestiynau profiad pobl (cwestiynau craidd) yn y man lleiaf.

## Gofalwyr/Teuluoedd

Mae gofalwyr/teuluoedd yn chwarae rhan werthfawr yn iechyd a lles eu hanwyliaid ac mae eu cyfraniad yn aml yn mynd y tu hwnt i'r sawl sy'n cael gofal ac yn cael effaith ar gymdeithas a gwasanaethau ehangach. Weithiau, nid yw cyfraniad a rôl gofalwyr yn iechyd a lles eu hanwyliaid yn cael ei gydnabod ddigon. Yn aml, y gofalwr sy'n trefnu apwyntiadau, yn trefnu cludiant, yn chwarae rhan wrth esbonio gwybodaeth i'r claf, yn cynorthwyo gyda meddyginiaeth, yn ogystal â helpu gyda llu o dasgau pwysig eraill. Mae'r lefel hon o gyfranogiad yn rhoi gofalwyr mewn sefyllfa unigryw i rannu eu profiadau o wasanaethau a dylid datblygu arolygon Profiadau Pobl i alluogi gofalwyr i gynnig eu hadborth.

Yn ogystal, mae effaith salwch claf ar iechyd a lles gofalwr/aelod o'r teulu ei hun wedi profi i fod yn eang a difrifol a dylai sefydliadau ystyried argaeledd holiadur tebyg i FROM (Mesur Canlyniadau a Adroddir gan Deuluoedd). Dylai datblygu ac argaeledd holiaduron o'r fath bob amser fod yn gysylltiedig â gallu'r sefydliad i gyfeirio a darparu cymorth.

## Monitro Cydraddoldeb

Mae canlyniadau a phrofiadau iechyd yn aml yn cael eu dylanwadu gan nodweddion gwarchodedig ein pobl a'n cymunedau. Er mwyn helpu i nodi profiadau amrywiol, dylai **pob** arolwg profiad ac adborth ar draws GIG Cymru gynnwys set o gwestiynau demograffig ac amrywiaeth a gytunwyd yn genedlaethol (drwy lens ansawdd) sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad C.

Ni ddylai fod yn orfodol ateb y cwestiynau hyn, a dylid nodi esboniad clir o sut bydd data'n cael ei ddefnyddio a'i storio yn y cyflwyniad i'r arolwg/holiadur. Dylid datblygu prosesau cadarn i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi gwybodaeth ar lefel leol a sicrhau nad yw'r wybodaeth a ddarperir yn effeithio ar fynediad unigol at wasanaethau neu ofal.

Hefyd, dylai sefydliadau ddatblygu prosesau sy'n helpu i gasglu gwybodaeth am ddemograffeg ac amrywiaeth y bobl hynny sydd wedi codi cwyn (ar adeg fwyaf priodol).

Disgwylir y bydd gan bob sefydliad brosesau ar waith i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi gwybodaeth sy'n cael ei chasglu i ddarparu haen ychwanegol i'r data profiad, a'i ddefnyddio i gefnogi ansawdd, gwelliant ac ymgysylltiad cymunedau yn ehangach.

## Gwerthoedd a phrofiadau staff

Profiad pobl yw 'swm yr holl ryngweithio, wedi'i siapio gan ddiwylliant y sefydliad, y staff a'r systemau'. Gellir defnyddio'r un diffiniad i staff ac yn syml, mae profiadau staff a phobl yn ddwy ochr i'r un geiniog. Mae cysylltiad cynhenid rhwng diwylliant sefydliadol a phrofiadau staff ar yr un llaw a phrofiadau pobl ar y llaw arall. Mae'r staff yn falch o weithio i'r sefydliad ac yn canmol y diwylliant yno. Mae staff ar draws y sefydliad yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon ac yn credu y bydd eraill yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi.

Rydym yn deall bod gofyn i bobl 'Beth sy'n bwysig i chi' yn hytrach na 'Beth sy'n bod gyda chi' yn gwneud byd o wahaniaeth i'w profiadau cyffredinol o wasanaethau GIG Cymru. Faint mwy o wahaniaeth allwn ni ei wneud pe byddem yn dechrau gofyn cwestiwn tebyg i'n staff: 'Beth sydd bwysicaf i chi?' Dylem gofio y gallai'r berthynas hon fod yn un o'r camau pwysicaf y mae GIG Cymru yn eu cymryd i ysgogi cynhyrchiant gwell a gwella profiadau o ofal i holl boblogaeth Cymru.

Y disgwyl yw y bydd sefydliadau'n gweithio gyda thimau Adnoddau Dynol, Cyllid, Datblygu a Chynllunio Sefydliadol, Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth a Data a Dadansoddi i sefydlu rhaglen waith, sy'n cynnwys triongli data er mwyn llywio canlyniadau a phrofiadau gwell i bobl trwy wella profiad staff.

## Straeon

Ni allwn anwybyddu pwysigrwydd sgyrsiau a chyfraniadau seiliedig ar straeon/naratif wrth gefnogi ansawdd a gwelliant. Dylid ymgorffori'r defnydd o straeon pobl, cymunedau a staff ar draws holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru.

Mae disgwyl y bydd gan sefydliadau brosesau ar waith i'w helpu i gasglu a gwrando ar straeon pobl. Dylid rhannu'r straeon hyn mewn cyfarfodydd Pwyllgor a Bwrdd, yn ogystal â'u defnyddio fel rhan o hyfforddiant staff ac ymwybyddiaeth sefydliadol.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gasglu a dadansoddi straeon thematig o bob rhan o GIG Cymru, disgwylir i bob sefydliad gyfrannu at Lyfrgell Straeon Digidol GIG Cymru Gyfan. I gefnogi sefydliadau, mae pecyn cymorth Stori Ddigidol GIG Cymru wedi'i gynnwys yn Atodiad D.

## Grwpiau Pobl/Profiad Bywyd

Mae profiad bywyd yn cyfeirio at y cyfarfyddiadau, y safbwyntiau a'r ddealltwriaeth unigryw a phersonol mae unigolion yn eu hennill trwy gymryd rhan uniongyrchol mewn sefyllfaoedd neu amgylchiadau penodol. Mae'n cwmpasu'r profiadau bywyd go iawn, emosiynau, heriau a gwersi a ddysgir gan unigolion wrth iddyn nhw ymdrin ag agweddau gwahanol ar eu bywydau. Mae profiad bywyd yn oddrychol iawn a gall cefndir, diwylliant, credoau ac amgylchiadau personol unigolyn ddylanwadu arno. Mewn cyd-destunau amrywiol, megis gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol neu eiriolaeth, mae profiad bywyd yn cael ei werthfawrogi am ei ddilysrwydd a'i botensial i gynnig dealltwriaeth werthfawr a llywio prosesau gwneud penderfyniadau.

Disgwylir i bob sefydliad ymgynghori â'u grwpiau pobl/profiad bywyd, cyn triongli hyn fel rhan o'i adborth profiad pobl.

## Cwynion

Mae cwynion yn rhan o'r teulu o adborth profiadau ac maen nhw'n fynegiant o anfodlonrwydd, sy'n ddigon sylweddol i annog yr unigolyn i godi'r mater yn y lle cyntaf.

Bydd sefydliad rhagorol yn cynnwys profiad a ffynonellau adborth eraill fel y gellir gweithredu'n gyflym lle bo angen. Gellir dangos meysydd problemus yn hawdd a'u hadrodd i uwch arweinwyr, pwyllgorau, cyfarfodydd Bwrdd a'r cyhoedd mewn fformat hygyrch.

Caiff cwynion eu rheoli drwy fframwaith polisi cadarn a phrosesau rheoliadau 'Gweithio i Wella'. Dylai egwyddorion 'ar waith bob amser' gyd-fynd â'r maes cwynion.

## Digwyddiadau

Mae digwyddiadau clinigol yn cyfeirio at ddigwyddiadau anfwriadol neu annisgwyl sy'n digwydd wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ac sydd â'r potensial i achosi niwed i gleifion, staff neu ymwelwyr. Gall y digwyddiadau hyn amrywio o wallau wrth roi meddyginiaeth i fethiant cyfathrebu, offer diffygiol, neu adweithiau niweidiol i driniaethau. Mae digwyddiadau clinigol fel arfer yn cael eu dadansoddi i ddeall eu hachosion, eu hatal rhag digwydd eto, a gwella diogelwch cleifion ac ansawdd gofal. Defnyddir systemau adrodd ac ymchwilio digwyddiadau yn gyffredin mewn lleoliadau gofal iechyd i nodi digwyddiadau clinigol a mynd i'r afael â nhw'n brydlon. Dylid ystyried digwyddiadau wrth driongli dulliau adborth.

## Canmoliaeth

Mae canmoliaeth yn fynegiant digymell o ddiolchgarwch. Mae pobl yn rhoi o'u hamser i adael gair o ganmoliaeth yn y gobaith bod yr ymddygiadau maen nhw'n eu profi yn cael eu hailadrodd ac ar gael fel mater o drefn i eraill. Prin iawn yw budd cymharu nifer y geiriau o ganmoliaeth a chwynion ar wahân i'r naratif cyd-destunol wrth geisio cefnogi ansawdd a gwelliannau. Er mwyn cefnogi cyd-ddealltwriaeth o'r hyn sy'n ganmoliaeth ac i sicrhau bod holl gyrff y GIG yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar bob cyfle i gofnodi canmoliaeth, rhoddir diffiniad cyffredin o ganmoliaeth isod:

> *'Datganiad cadarnhaol neu werthfawrogol am unrhyw aelod unigol o staff, gwasanaethau, rhaglen neu swyddogaeth GIG Cymru, sy'n cynnwys mynegi canmoliaeth, edmygedd, neu longyfarch sy'n mynd y tu hwnt i gwrteisi cyffredin. Gellir derbyn hyn trwy amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys ar lafar ac yn ysgrifenedig'.*

Disgwylir i gyrff y GIG yng Nghymru ddatblygu a gweithredu system 'ar waith bob amser' gadarn ar gyfer casglu canmoliaeth o fewn cyrraedd hawdd i bobl a chymunedau. Hefyd, dylai sefydliadau ddatblygu prosesau sy'n helpu i ddysgu o ganmoliaeth, prosesau i gydnabod meysydd a staff y sonnir amdanynt yn y ganmoliaeth, prosesau i rannu arferion da a nodir o fewn canmoliaeth yn ehangach yn y sefydliad.

# Argymell Offeryn Hunanasesu Lleol o ran Arferion Da

Argymhellir bod holl Gyrff GIG Cymru yn cwblhau dull sgorio hunanasesu lleol RAG (coch, oren, gwyrdd) ar gyfer pob elfen o'r fframwaith fel sail ar gyfer ansawdd a gwelliannau lleol.

Mae sicrwydd cenedlaethol yn cael ei oruchwylio gan Weithrediaeth GIG Cymru.

1. Adolygu datganiad pob maen prawf a nodi'r ystod o dystiolaeth sydd ar gael sy'n cefnogi pob datganiad. Gofynnwch gwestiynau i chi'ch hun fel:

a. Pa mor sefydledig yw'r broses sy'n cefnogi'r maen prawf hwn?

b. Ydyn ni'n gyson ar draws y sefydliad/gwasanaeth cyfan?

2. Yna barnwch gryfder y dystiolaeth drwy sgôr RAG –

| | |
|---|---|
| Coch | **Dim tystiolaeth/tystiolaeth annigonol.** |
| Oren | **Tystiolaeth ar gael ond efallai y bydd angen ei datblygu ymhellach.** |
| Gwyrdd | **Digon o dystiolaeth berthnasol.** |

Os ydych chi o'r farn bod y dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r meini prawf yn **Goch**, yna mae hwn yn faes ar gyfer datblygu/archwilio, a dylid ei gynnwys yng nghynllun datblygu eich sefydliad. Bydd angen mynd i'r afael â maen prawf **Oren** cyn asesu hefyd, **ond os oes gennych chi ddeg neu fwy o feini prawf Coch dylech ganolbwyntio ar y rhain yn gyntaf cyn ychwanegu'r meini prawf Oren at eich cynllun gwella.**

| Meini prawf | Enw'r person/ tîm sy'n cwblhau'r hunanasesiad | Dyddiad cynnal hunanasesiad | Beth sydd gennym ar waith | Ein Sgôr Coch Oren Gwyrdd | Meysydd i ganolbwyntio arnynt/ eu gwella yn ystod y 12 mis nesaf | Dyddiad ailasesu | Enw'r grŵp/ pwyllgor i dderbyn canlyniad yr hunanasesiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arweinyddiaeth | | | | | | | |
| Y gallu a'r galluogrwydd i gasglu adborth yn effeithiol | | | | | | | |
| Dadansoddi a thriongli | | | | | | | |
| Defnyddio adborth pobl i helpu i wella ansawdd a dysgu | | | | | | | |
| Adrodd a chyhoeddi | | | | | | | |

# Meysydd Hunanasesu Lleol

## Arweinyddiaeth

Mae'r Bwrdd ac uwch arweinwyr yn dangos eu hymroddiad i flaenoriaethu profiad pobl yn eu holl fentrau. Maent yn gweithio tuag at gydweithredu gwell, gan sicrhau bod pob unigolyn yn chwarae rhan hanfodol yn y prosesau gwneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau'r canlyniadau a'r profiadau gorau posibl.

Mae arweinyddiaeth yn hyrwyddo diwylliant wedi'i ddiffinio gan dosturi, empathi a charedigrwydd wrth gynnal egwyddorion preifatrwydd, urddas a hawliau dynol. Mae pob aelod o'r gweithlu yn arddel y gwerthoedd a'r ymddygiadau hyn.

| Nodweddion | Y gofyniad a awgrymir sydd ei angen i fodloni'r nodwedd | Sefyllfaoedd da enghreifftiol |
|---|---|---|
| Mae gan y sefydliad ddogfen wedi'i chymeradwyo'n strategol gan y Bwrdd gyda'r nod o wella profiadau pobl. Mae'r ddogfen hon yn dadlau o blaid strategaeth system gyfan sy'n pwysleisio ansawdd, gwelliant parhaus, a dysgu parhaus. | Mae gan y sefydliad Ddogfen Profiad Pobl, a ddatblygwyd ar y cyd â chyfraniad unigolion a chymunedau, gydag ymgyngoriadau sy'n cynnwys yr holl aelodau staff a rhanddeiliaid perthnasol.<br><br>Mae'r ddogfen hon yn cael ei chymeradwyo drwy broses lywodraethu'r sefydliad.<br><br>Mae'r Fframwaith Profiad Pobl wedi'i gynllunio i gyd-fynd yn ddi-dor â'r Ddyletswydd Ansawdd, Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal, a'r Ddyletswydd Gonestrwydd ac mae'n rhan annatod ohonynt. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu ymrwymiad i ofal iechyd seiliedig ar werth. | Nod y sefydliad yw sefydlu dogfen gymeradwy sy'n amlinellu profiadau pobl. Dylai'r ddogfen hon fod yn hawdd ei deall i unigolion, cymunedau a staff.<br><br>Disgwylir i'r Ddogfen Profiad Pobl fod yn gydnaws â dogfennau a chynlluniau polisi hanfodol eraill, megis y Strategaeth Ansawdd, Cynllun Cydraddoldeb ac eraill. |
| Gall y Bwrdd ddangos tystiolaeth o wrando'n weithredol ar adborth gan unigolion a chyflwyno mesurau lle bo'n briodol i wella profiad ac ansawdd y gwasanaeth. | Mae amrywiaeth o ddulliau adborth ac ymgysylltu ar waith, yn cael eu hyrwyddo'n weithredol a'u rhannu'n eang.<br><br>Mae pob aelod o staff yn cymryd rhan, gan gyfrannu eu dealltwriaeth tuag at ddatblygu gwasanaethau a newidiadau effeithlonrwydd, gan ganolbwyntio ar ddeall sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar unigolion, cymunedau a staff. | Tystiolaeth mewn adroddiadau cyhoeddus o wrando, adrodd a gweithredu ar adborth e.e., 'fe ddywedoch chi, fe wnaethon ni,' yn unol â'r Ddyletswydd Ansawdd. |

| Nodweddion | Y gofyniad a awgrymir sydd ei angen i fodloni'r nodwedd | Sefyllfaoedd da enghreifftiol |
|---|---|---|
| Mae profiad pobl wedi'i integreiddio i bob menter datblygu arweinyddiaeth, gan gwmpasu ymdrechion gan bawb dan sylw. Mae hyn yn meithrin diwylliant sy'n ymroi i ddysgu a gwella'n. barhaus, gan flaenoriaethu ansawdd, diogelwch a phrofiad. | Mae'r holl arweinwyr ac uwch reolwyr yn cyfrannu'n weithredol at system rheoli ansawdd effeithlon, gan feddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r gwerthoedd angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Hefyd, mae arweinwyr ac uwch reolwyr yn cymryd camau rhagweithiol i wreiddio dysgu, ansawdd a phrofiad mewn gwaith datblygu arweinyddiaeth, amcanion staff, arfarniadau, a phrosesau perthnasol eraill. | Gall y sefydliad ddangos y defnydd o adborth Profiad Pobl wrth wneud penderfyniadau a chynllunio a darparu gwasanaethau.<br><br>Gall y sefydliad ddarparu tystiolaeth bendant o ymgorffori profiad pobl yn y broses o wneud penderfyniadau a chynllunio, a darparu gwasanaethau. |
| Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn weladwy, gyda Chyfarwyddwr Gweithredol dynodedig yn atebol am arwain ansawdd a phrofiad pobl i sicrhau bod y sefydliad yn cyflawni ei Ddyletswydd Ansawdd a'i rwymedigaeth i hyrwyddo gwrando gweithredol a dysgu o brofiadau ac adborth. | Mae'r Arweinydd Gweithredol neu ei ddirprwy enwebedig ar gyfer profiad pobl yn cynorthwyo'n gyson gyda thrafodaethau ar brofiad ac yn cyflwyno adroddiadau cynhwysfawr i'r Bwrdd yn rheolaidd. Gan gymryd rheolaeth weithredol o'r maes hwn o fewn sefydliad, mae'r arweinydd enwebedig yn sicrhau bod profiadau pobl (gan gynnwys straeon) yn rhan arferol o gyfarfodydd amrywiol, gan gynnwys rhai sy'n cael eu cynnal gan y Bwrdd a'i is-bwyllgorau. | Mae profiadau pobl a'r gweithredoedd cyfatebol yn cael eu datgelu yn adroddiadau'r Bwrdd ac adroddiadau cyhoeddedig eraill.<br><br>Mae profiad pobl yn croesgyfeirio gwahanol ffynonellau profiad/adborth, gan gynnwys canmoliaeth, adborth cyffredinol, sgoriau boddhad, cwynion, a gofal iechyd seiliedig ar werth. Gwybodaeth e.e. (PROMS/PREMS), gan ymgorffori nodau ac offerynnau gwneud penderfyniadau ar y cyd.<br><br>Mae profiadau bywyd pobl, ynghyd â'r hyn a ddysgwyd a chamau gweithredu cysylltiedig, yn cael eu rhannu'n fewnol ac yn allanol. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chydbwyso â phrofiadau a straeon staff. |

| Nodweddion | Y gofyniad a awgrymir sydd ei angen i fodloni'r nodwedd | Sefyllfaoedd da enghreifftiol |
|---|---|---|
| Mae'r strategaeth datblygu sefydliadol a'r cynlluniau gweithredu yn seiliedig ar ymrwymiad i wella profiadau pobl. | Mae profiad pobl wedi'i integreiddio i'r strategaethau datblygu sefydliadol. Dylai hyn hefyd gynnwys sicrhau bod ein staff yn cael eu hyfforddi a'u harfogi i ymgysylltu a chydweithio â'n cyhoedd a'n cymunedau. | Mae cydnabyddiaeth bod profiad staff yn hanfodol i brofiad ac ansawdd gwasanaeth pobl. Dylid cyfeirio at hyn mewn dogfennau allweddol fel Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTPs), a Strategaethau Profiad Cleifion (Profiad Pobl). |
| Mae'r sefydliad yn gwerthfawrogi ac yn dathlu arloesedd gan staff sy'n dangos dull cyson o ymdrin â phrofiad pobl a gwelliannau ansawdd. | Cefnogir staff gan uwch reolwyr a chydweithwyr i wrando a gweithredu'n lleol fel ymateb i adborth ac mae'r sefydliad yn casglu, dadansoddi ac adrodd yn rheolaidd ar ganlyniadau unrhyw waith gwella ansawdd.<br><br>Mae gwaith monitro'n digwydd yn erbyn canlyniadau'r staff ac arolygon profiad pobl.<br><br>Mae ymddygiad staff yn dosturiol, yn cynnwys pobl a chymunedau wrth wneud penderfyniadau ac yn darparu cymorth emosiynol da i bobl. | Mae datblygiadau arloesol yn cael eu cydnabod o fewn ystod eang o bolisïau, gweithdrefnau ac adroddiadau i'r Bwrdd.<br><br>Maent hefyd yn cael eu dathlu a'u cydnabod mewn gwobrau staff; arfarniadau; rhaglenni ymchwil a gwella ansawdd.<br><br>Mae cyfleoedd i rannu'r dysgu ar draws y sefydliad ac yn ehangach, gan gynnwys y cyfle i rannu arferion da a dysgu o gamgymeriadau.<br><br>Mae hyfforddiant staff yn cynnwys cyfleoedd i ddeall a sefydlu:<br>• arweinyddiaeth a diwylliant tosturiol o fewn y sefydliad<br>• adborth cadarnhaol – dysgu o ganmoliaeth.<br><br>Mae pobl a chymunedau yn cymryd rhan mewn hyfforddiant staff drwy ffyrdd amrywiol gan gynnwys straeon profiad bywyd i gyflwyno'r hyfforddiant. Mae cynnwys pobl a chymunedau yn llawn mewn cyfarfodydd GIG Cymru yn gallu cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau a chyfrannu at godi ymwybyddiaeth staff. |

| Nodweddion | Y gofyniad a awgrymir sydd ei angen i fodloni'r nodwedd | Sefyllfaoedd da enghreifftiol |
|---|---|---|
| Mae cysylltiad cynhenid rhwng diwylliant sefydliadol a phrofiadau staff ar yr un llaw a phrofiadau pobl ar y llaw arall. Mae'r staff yn falch o weithio i'r sefydliad ac yn canmol y diwylliant yno. Mae staff ar draws y sefydliad yn teimlo eu bod nhw'n gallu codi pryderon ac yn credu y bydd eraill yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi. | Mae'r sefydliad wedi datblygu, gyda phobl a staff, set o werthoedd, a fynegir trwy'r holl ddogfennau corfforaethol, sy'n adlewyrchu gwerthoedd GIG Cymru.<br><br>Mae gan y sefydliad broses o sicrhau bod gwerthoedd yn eiddo i staff.<br><br>Mae gan y sefydliad system recriwtio ac arfarnu sy'n seiliedig ar werthoedd. | Mae gan sefydliadau Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad sydd wedi'i gytuno a'i gyhoeddi ac sydd wedi'i ddatblygu gyda staff, pobl, cymunedau a'r holl randdeiliaid perthnasol.<br><br>Mae gofal/darpariaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (canolbwyntio ar y boblogaeth) yn elfen graidd o werthoedd y sefydliad ac yn hyrwyddo ffordd gydgynhyrchiol o weithio.<br><br>Mae safonau ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiad yn rhan o broses recriwtio, cyfweliadau, disgrifiadau swydd staff, proffiliau rôl ac arfarniadau. |
| Mae'r sefydliad yn mynegi ei ymrwymiad i ymgysylltu â phobl a chymunedau trwy ei holl gyfathrebu. Mae hyn yn unol â'r Ddyletswydd Ansawdd. | Mae gwefan y sefydliad a dulliau eraill o gyfathrebu â phobl allanol yn hygyrch ac yn glir, a byddai pobl yn ei chael yn hawdd eu defnyddio. Hefyd, maent yn mynegi ymrwymiad i wasanaethau a rhaglenni sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn neu'r boblogaeth.<br><br>Mae pobl a chymunedau yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu, cynhyrchu ac adolygu'r holl wybodaeth iechyd (gan gynnwys hybu iechyd) a lles ar gyfer y cyhoedd.<br><br>Mae pobl a chymunedau yn gallu cael gohebiaeth sy'n ymwneud â'u hiechyd neu eu gofal mewn fformat hygyrch sy'n addas i'w hanghenion. | Mae negeseuon cyfathrebu ar gael yn ddwyieithog mewn amrywiaeth o fformatau (Cymraeg a Saesneg) ond dylent hefyd gynnwys gwybodaeth hawdd ei darllen a heb jargon, BSL, sain ac iaith ddewisol. Mae gwefannau sefydliadol wedi'u cynllunio i ddefnyddio iaith sy'n glir o ran ystyr a rhydd o jargon.<br><br>Mae gwybodaeth am iechyd a lles unigolion neu gymunedau ar gyfer y cyhoedd yn cael ei datblygu yn unol ag arferion da ac yn cael ei hadolygu gan randdeiliaid cyn ei chyhoeddi. Mae adolygiad rhanddeiliaid yn gynhwysol ac yn berthnasol i'r bobl a'r cymunedau a fyddai'n defnyddio'r wybodaeth honno. |

| Nodweddion | Y gofyniad a awgrymir sydd ei angen i fodloni'r nodwedd | Sefyllfaoedd da enghreifftiol |
|---|---|---|
| | | Mae sefydliadau'n cydymffurfio â'r Safonau Gwybodaeth Hygyrch, Gofal Iechyd ac Ansawdd. Mae pob sefydliad yn dangos sut bydd yn gweithredu, yn cydymffurfio ac yn monitro'r Safonau Gwybodaeth Hygyrch.<br>Cesglir adborth gan staff, pobl a chymunedau yn rheolaidd ac mae'n cynnwys adborth ar a yw gwybodaeth a negeseuon cyfathrebu yn hygyrch. |

# Y Gallu a'r Galluogrwydd i Gasglu Adborth yn Effeithiol

Mae gan y sefydliad sawl llwybr y gall Pobl a Chymunedau ddarparu adborth trwyddynt.

| Nodweddion | Y gofyniad a awgrymir sydd ei angen i fodloni'r nodwedd | Sefyllfaoedd da enghreifftiol |
| --- | --- | --- |
| Mae'r sefydliad yn sicrhau bod profiadau pobl a themâu cyffredinol wrth wraidd pob arolwg, gan gynnwys arolygon ôl-ryddhau. Mae'n cydweithio â thimau i ddyfeisio a gweithredu prosesau adborth cyflym, amser real neu agos at amser real. | Mae'r sefydliad yn cydymffurfio'n llawn â'r holl fecanweithiau mandadol ac mae ganddo raglen gynhwysfawr ymroddedig i chwilio am brofiad ac adborth cyflym, amser real gan unigolion, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf sydd ar gael iddynt. | Dylai system unedig i Gymru hwyluso meincnodi ar draws sefydliadau a chefnogi adborth amser real trwy amrywiol sianeli, megis SMS, IVR, platfformau ar-lein, papur, ac ati.<br><br>Anogir sefydliadau i ystyried ail-lunio'r cwestiwn o 'Beth sy'n bod?' i 'Beth sy'n bwysig i chi?' Nod y newid ffocws hwn yw blaenoriaethu a mynd i'r afael â phryderon a dewisiadau'r unigolyn. |

| Nodweddion | Y gofyniad a awgrymir sydd ei angen i fodloni'r nodwedd | Sefyllfaoedd da enghreifftiol |
|---|---|---|
| Mae'r sefydliad wedi pennu proses profiad ac adborth hygyrch sy'n cyd-fynd â chanllawiau a rheoliadau cenedlaethol. | Mae'r sefydliad wedi gweithredu prosesau adborth hygyrch a hawdd eu defnyddio, gan alluogi ffordd hawdd i unigolion gyflwyno canmoliaeth, darparu adborth, neu godi pryderon yn eu dewis iaith. Mae gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r prosesau hyn yn cael ei harddangos yn amlwg ac yn hygyrch ar draws pob lleoliad a fformat (gwefan a sgriniau arddangos ac ati).<br><br>Mae gan sefydliadau broses systematig ar waith ar gyfer casglu profiadau, adborth, a phryderon penodol am sut mae cwynion yn cael eu trin a'r broses gyffredinol. Mae tystiolaeth ddiamwys bod adborth yn cael ei gasglu'n gyson, ac mae'r sefydliad wedi rhoi newidiadau ymarferol ar waith.<br><br>Ar ben hynny, mae'r gwelliannau hyn wedi'u cynnal dros amser. | Mae canllawiau cenedlaethol cadarn ac ymwybyddiaeth eang o systemau profiad ac adborth ar draws y sefydliad, yn fewnol ac yn allanol, gyda ffocws penodol ar gyrraedd cymunedau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml. Mae trefnu bod taflenni a phosteri ar gael mewn fformatau dwyieithog (Cymraeg a Saesneg), ac ieithoedd eraill yn unol ag anghenion y boblogaeth leol, yn sicrhau gwelededd clir. Dylid sicrhau bod fformatau hygyrch ychwanegol, gan gynnwys hawdd ei ddeall, Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a fersiwn sain ar gael hefyd.<br><br>Mae'r sefydliad yn gallu darparu tystiolaeth o gasglu profiad ac adborth ynghylch y broses bryderon. Ar ben hynny, gall ddangos gwelliannau pendant a wnaed oherwydd y profiad a'r adborth a gasglwyd.<br><br>Caiff adborth ei gasglu'n systematig bob mis, ac mae tystiolaeth ddogfennol o welliant (lle bo hynny'n briodol). Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno o fewn y sefydliad ac yn allanol i'r cyhoedd. |
| Mae'r holl staff yn ysgwyddo cyfrifoldeb am adborth a phryderon ac yn ymateb iddynt cyn gynted â phosibl. Darperir gwybodaeth glir, ac estynnir cymorth pan fydd unigolion yn mynegi awydd i roi adborth neu godi pryder. | Cefnogir yr holl staff gan eu cydweithwyr i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan unigolion, ac mae proses strwythuredig fel y gall timau a'r sefydliad ehangach rannu a dysgu o'r profiadau hyn. | Mae'r holl staff wedi'u grymuso i fyfyrio ar yr holl adborth a chael cymorth i wella profiadau unigolion. Mae gan y sefydliad brosesau clir ar waith i uwchgyfeirio, rhannu a dysgu o'r holl adborth. |

| Nodweddion | Y gofyniad a awgrymir sydd ei angen i fodloni'r nodwedd | Sefyllfaoedd da enghreifftiol |
|---|---|---|
| Y Ddyletswydd Gonestrwydd | Mae staff yn deall ac yn gweithredu ar y Ddyletswydd Gonestrwydd fel yr amlinellir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.<br>Mae arwyddocâd profiad ac adborth yn rhan o ddull y sefydliad o ymdrin â hyfforddiant staff. | Mae pob aelod o staff, gan gynnwys y rhai rheng flaen neu'r rhai sy'n ymwneud â datblygu gwasanaethau, wedi cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.<br>Mae'r sefydliad yn gallu darparu tystiolaeth o fod yn agored ac yn onest gyda phobl a chymunedau pan fydd pethau'n mynd o chwith.<br>Mae hyfforddiant ar adborth profiad wedi'i ymgorffori ym mhob elfen o'r sefydliad, gan gynnwys prosesau sefydlu, rhaglenni datblygu arweinyddiaeth, ac arfarniadau staff. |
| Mae pobl yn cael gwybodaeth am y dulliau gwahanol o roi adborth, sy'n cynnwys arolygon papur, cardiau sylwadau, platfformau'r we, negeseuon testun, dyfeisiau, ciosgau ac apiau.<br>Mae staff yn cefnogi unigolion i ddefnyddio'r dulliau hyn, gan sicrhau ystyriaeth i anghenion y rhai sy'n llai abl neu'n llai parod i roi adborth. | Mae'r sefydliad yn lledaenu gwybodaeth i unigolion mewn sawl ffordd i roi adborth.<br>Mae pobl yn cael gwybod am wahanol lwybrau sydd ar gael iddynt fel llwybrau ar gyfer rhannu eu profiadau a'u hadborth.<br>Mae'r sefydliad yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu adborth gan bobl, gan deilwra'r dulliau hyn yn seiliedig ar anghenion a dewisiadau unigolion.<br>Mae aelodau staff yn gyfarwydd â'r dulliau hyn ac yn annog ac yn cynorthwyo pobl i ddarparu adborth.<br>Anogir sefydliadau i sefydlu dangosyddion ansawdd (QIs) profiad/adborth ar gyfer pob gwasanaeth ar gyfer y cyhoedd, a rhaglenni yn unol â'r Fframwaith Profiad Pobl. Dylai'r rhain gefnogi gwelliannau ansawdd a chael eu hadrodd yn fewnol o fewn y sefydliad a bod ar gael yn allanol i'r cyhoedd hefyd. | Gall y sefydliad ddangos bod ganddo fethodolegau a llwybrau hygyrch gwahanol ar waith ar gyfer casglu profiadau pobl.<br>Gall sefydliadau ddangos dull gwella ansawdd o gyflwyno llwybrau newydd ar gyfer casglu profiad pobl a dysgu o dystiolaeth sydd wedi arwain at welliannau.<br>Gall staff gyfeirio pobl a chymunedau at amrywiaeth o lwybrau adborth.<br>Dylai'r dangosyddion ansawdd a phob gwybodaeth seiliedig ar berfformiad fod ar gael ar wefannau ac mewn adroddiadau, a hynny mewn fformat hawdd ei ddeall. Hefyd, dylai gwybodaeth ar-lein fod yn hawdd dod o hyd iddi. |

# Dadansoddi a Thriongli

Mae gan y Sefydliad ddull systematig a chyson o ddadansoddi a gwneud synnwyr o adborth (ansoddol a meintiol) ac mae'n ei ystyried ochr yn ochr â data diogelwch a chanlyniadau.

| Nodweddion | Y gofyniad a awgrymir sydd ei angen i fodloni'r nodwedd | Sefyllfaoedd da enghreifftiol |
|---|---|---|
| Mae'r sefydliad wedi gweithredu dull systematig o ddadansoddi adborth a phrofiadau a gesglir mewn ffurfiau gwahanol.<br><br>Hefyd, mae gan y sefydliad gymorth dadansoddeg a deallusrwydd pwrpasol ar gyfer ei ddata profiad, gan gynhyrchu adroddiadau clir a defnyddiol. | Mae'r sefydliad yn dadansoddi pob math o adborth a phrofiad yn systematig fel mater o drefn, gan grynhoi pob llinyn a nodi themâu y mae'n gweithredu arnynt. | Mae'r sefydliad yn defnyddio dadansoddiad o deimladau amser real i nodi cyfleoedd ar gyfer datrysiadau cynnar.<br><br>Mae pob math o adborth a phrofiad yn cael ei driongli gyda mesurau canlyniadau amrywiol eraill ac yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau ansawdd a sicrwydd ar draws y sefydliad, yn ogystal ag adroddiadau cyhoeddus eraill. Mae data meintiol, pan fydd ar gael, yn cael ei gyflwyno ar ffurf graffiau dros amser i ddarparu cynrychiolaeth weledol o dueddiadau.<br><br>Dadansoddir gwybodaeth am ddemograffeg ac amrywiaeth yn unol â'r themâu profiadau i nodi unrhyw amrywiad ac ategu gwaith gwella neu ymgysylltu (fel bo'r angen). Mae'r data yn cael ei drosi i ddeallusrwydd busnes, gan lywio camau gwella ansawdd ac ymgysylltu ystyrlon (lle bo hynny'n briodol). |
| Mae'r sefydliad yn cynhyrchu adroddiadau sy'n arddangos y gydberthynas rhwng gwella canlyniadau, diogelwch a phrofiad pobl. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei thriongli fel mater o drefn gyda data o arolygon staff, gan ddarparu safbwynt cynhwysfawr ar berfformiad yn ei gyfanrwydd. | Mae adroddiadau'n tynnu sylw at themâu lle mae profiadau pobl yn cyd-fynd â mesurau ansawdd eraill.<br><br>Mae adroddiadau sefydliadol yn mynegi'r perthnasoedd hyn yn glir ac yn amlinellu'r camau gwella ansawdd sy'n deillio o'r dadansoddiad. | Mae pob math o adborth a phrofiad yn cael ei driongli gydag amryw o fesurau canlyniadau eraill ac wedi'u cynnwys mewn adroddiadau ansawdd a sicrwydd y sefydliad. Mae'r wybodaeth hon hefyd wedi'i chynnwys mewn adroddiadau cyhoeddus eraill.<br><br>Mae perthynas gadarn yn cael ei chynnal gyda gwasanaethau a thimau i sicrhau bod adborth, lle bynnag y bo'n ymarferol, yn cael ei droi'n welliannau. Mae'r cydweithrediad hwn yn cynnwys staff o feysydd amrywiol ar draws y sefydliad. |

| Nodweddion | Y gofyniad a awgrymir sydd ei angen i fodloni'r nodwedd | Sefyllfaoedd da enghreifftiol |
|---|---|---|
| Mae’r sefydliad yn defnyddio data profiad yn fedrus i nodi a thynnu sylw’n effeithiol at feysydd lle mae perfformiad yn dirywio, gan hwyluso camau gweithredu prydlon i fynd i’r afael â’r achosion sylfaenol. | Mae’r sefydliad yn defnyddio data profiad ac adborth yn fedrus fel system rhybudd cynnar bod safonau’n gostwng. Mae hyn yn galluogi arweinwyr ar lefelau gwahanol i ganfod pryderon a gweithredu dulliau gwella ansawdd yn brydlon.<br><br>Mae’r sefydliad yn defnyddio data ar brofiad ac ymgysylltu i ddeall amrywiadau.<br><br>Mae profiad wedi’i gysoni’n llawn ag ymdrechion gwella ansawdd ac yn rhan annatod ohonynt. | Defnyddir graffiau tueddiadau i nodi gweithgarwch annormal o fewn y system adborth. Hefyd, gosodir rhybuddion i sbarduno camau gweithredu prydlon mewn ymateb i bryderon allweddol. Mae’r system hon yn helpu i fod yn wyliadwrus o faterion/problemau sy’n codi a chymryd camau unioni amserol.<br><br>Mae’r holl brosesau gwella ansawdd yn dangos yn ddiamwys y defnydd o ddata profiad.<br>Mae’r ddealltwriaeth sy’n deillio o’r data yn chwarae rhan flaenllaw wrth lunio a datblygu mentrau gwella ansawdd y sefydliad. |
| Mae pob tîm yn ystyried ac yn gweithredu ar wybodaeth am brofiad ac adborth fel mater o drefn. Pan fydd angen ailgynllunio gwasanaeth ar raddfa fwy, caiff adborth o’r fath ei uwchgyfeirio’n briodol a’i gynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau. | Mae gwasanaethau, rhaglenni a swyddogaethau yn derbyn adborth yn brydlon ac mewn fformat addas i’w defnyddwyr.<br><br>Mae sefydliadau’n cymryd rhan yn rheolaidd mewn trafodaethau am y data ac yn ei drosoli ar gyfer gwelliannau mewn ansawdd.<br><br>Mae gan y sefydliad ddull effeithiol o ddathlu a rhannu dysgu lleol. | Dylai’r sefydliad gael mynediad at system rheoli ansawdd lle mae data’n fyw ac mewn amser real, gan roi darlun uniongyrchol a chyfredol o’r sefyllfa iddynt. Dylai’r system rheoli ansawdd gwmpasu pob ffynhonnell profiad ac adborth. |

# Defnyddio Adborth Pobl i Helpu i Wella Ansawdd a Dysgu

Mae'r sefydliad yn ymroi'n gyson i geisio profiadau ac adborth gan bobl er mwyn meithrin diwylliant dysgu sy'n seiliedig ar fentrau gwella gwasanaethau ac ansawdd.

| Nodweddion | Y gofyniad a awgrymir sydd ei angen i fodloni'r nodwedd | Sefyllfaoedd da enghreifftiol |
|---|---|---|
| Mae'r sefydliad yn ymroi'n gyson i geisio profiadau pobl i feithrin diwylliant dysgu sy'n seiliedig ar fentra gwella gwasanaethau ac ansawdd.<br><br>Mae tystiolaeth bod y sefydliad yn defnyddio'r profiadau a'r adborth hyn, ac mae staff yn ymwybodol o'r ffaith bod profiadau pobl yn ganolog i ddylanwadu ar wella ansawdd. Ar ben hynny, mae pobl yn cymryd rhan weithredol fel partneriaid cyfartal yn y prosesau penderfynu, cynlluniau gwasanaeth a gwerthuso. | Mae staff yn dangos dealltwriaeth dda o ddamcaniaeth ac ymarfer gwneud penderfyniadau ar y cyd â phobl, ac mae egwyddorion hynny yn cael eu hatgyfnerthu trwy raglenni addysg a hyfforddiant.<br><br>Mae pobl yn cymryd rhan weithredol ym mhob agwedd ar eu hiechyd ac yn meddu ar ddealltwriaeth o'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â'u hiechyd a'u lles.<br><br>Mae gan y sefydliad fecanwaith ar waith i weld a oedd pobl yn teimlo'n rhan o benderfyniadau am eu hiechyd a'u lles eu hunain neu eu cymunedau.<br><br>Mae gan y sefydliad fecanwaith ar waith i weld a oedd pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys mewn gwasanaeth, dylunio rhaglenni neu werthuso. | Mae staff, gan gynnwys rhai rheng flaen neu'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio, datblygu gwasanaethau neu wella ansawdd, wedi cael addysg a hyfforddiant ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd.<br><br>Mae gwybodaeth gyhoeddus yn cynnwys gwybodaeth am benderfyniadau iechyd.<br><br>Mae gwybodaeth glinigol a chyhoeddus wedi'i chynllunio i adlewyrchu egwyddorion gwneud penderfyniadau ar y cyd, gan bwysleisio cydweithio rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau.<br><br>Gall y sefydliad ddangos tystiolaeth o gyfraniad pobl o'r cychwyn cyntaf, a chyhoeddi'r dystiolaeth honno'n gyhoeddus, gan dynnu sylw at ymrwymiad i glywed a gwrando. |

| Nodweddion | Y gofyniad a awgrymir sydd ei angen i fodloni'r nodwedd | Sefyllfaoedd da enghreifftiol |
|---|---|---|
| Mae’r sefydliad yn defnyddio methodoleg ac offer gwella ansawdd fel rhan o broses barhaus i wella gwasanaethau, rhaglenni a swyddogaethau yn barhaus. | Mae staff yn cymryd rhan weithredol mewn sgiliau gwella ansawdd i nodi problemau, cynnal profion newid, mesur eu heffaith, a gweithredu ar y canlyniadau.<br><br>Mae’r sefydliad yn grymuso pob aelod o staff drwy roi’r cyfle iddynt gyfrannu a gweithredu ar syniadau ar gyfer gwella ansawdd, gyda phroses glir ar gyfer mesur eu heffaith trwy brofiadau ac adborth.<br><br>Mae’r sefydliad yn meincnodi ac yn gallu dangos defnydd o brofiadau pobl i wneud penderfyniadau gwybodus.<br><br>Mae hyn yn cynnwys cymharu ei arferion a’i ganlyniadau i nodi meysydd i’w gwella a rhoi prosesau gwneud penderfyniadau gwybodus ar waith (e.e., Arolygon Cenedlaethol Profiad Pobl, Cwestiynau Craidd neu grwpiau Pobl/Profiad Bywyd). | Mae tystiolaeth o gyrsiau addysg a hyfforddiant a gynlluniwyd i gefnogi Dangosyddion Ansawdd (QI) ar gyfer gwella gwasanaethau, yn unol â’r Ddyletswydd Ansawdd.<br><br>Dylai sefydliadau gael proses ar waith i sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybod sut mae eu profiadau a’u hadborth wedi dylanwadu ar newid. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu tryloyw a hygyrch i ddangos effaith cyfraniad y cyhoedd ar benderfyniadau sefydliadol, gwerthusiadau a gwelliannau.<br><br>Gall sefydliadau ddangos sut mae eu grwpiau Pobl neu Brofiad Bywyd wedi helpu i nodi dysgu a rennir a gwelliannau ansawdd. Dylid cynnwys y dystiolaeth hon yn yr adroddiad Dyletswydd Ansawdd, a’r holl adroddiadau priodol eraill a sicrhau ei bod ar gael i’r cyhoedd mewn fformat hawdd ei ddarganfod a hygyrch. |

# Adrodd a Chyhoeddi

Mae'r sefydliad yn adrodd ac yn cyhoeddi data profiad pobl yn rheolaidd ac yn cydgynhyrchu ei gynlluniau gwella ansawdd gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, sefydliadau statudol a gwirfoddol, a grŵp staff y sefydliad.

| Nodweddion | Y gofyniad a awgrymir sydd ei angen i fodloni'r nodwedd | Sefyllfaoedd da enghreifftiol |
|---|---|---|
| Dylai profiad pobl fod yn elfen allweddol o adroddiadau sefydliadol yn unol â'r Ddyletswydd Ansawdd | Mae adroddiadau perthnasol yn cynnwys gwybodaeth am brofiadau pobl a sut mae'r sefydliad wedi annog adborth, gwrando ar, ac yn ymateb i brofiadau pobl, gan gynnwys enghreifftiau o welliannau. | Mae adroddiad Ansawdd Blynyddol, adroddiad gwella, ymgysylltu, cydraddoldeb, y Ddyletswydd Gonestrwydd ac adroddiadau Gweithio i Wella y sefydliad yn cynnwys enghreifftiau o sut mae'r sefydliad yn ymateb i brofiadau ac adborth. Yn achos Digwyddiadau/ Cwynion/y Ddyletswydd Gonestrwydd/Cwestau, byddai hyn yn cynnwys ôl-brofiadau'r broses o ymdrin â'r rhain. |
| Mae'r sefydliad yn cyhoeddi gwybodaeth dryloyw a hygyrch i'r cyhoedd yn rheolaidd o fewn cyrraedd hawdd (e.e. 2 glic) am brofiadau pobl ac ymateb y sefydliad i adborth (ac yn sicrhau bod yr wybodaeth hon yn hygyrch trwy lwybrau niferus). | Mae gwybodaeth ar gael ac yn hygyrch trwy fformatau a phlatfformau amrywiol. Dylai hyn gynnwys gofynion hygyrchedd cymunedau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml, cymunedau â chefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel a chymunedau â cholled synhwyraidd. | Dylai'r adroddiadau Ansawdd Blynyddol, adroddiad Gwella, Ymgysylltu, Cydraddoldeb, y Ddyletswydd Gonestrwydd a Gweithio i Wella fod ar gael trwy amryw o fformatau a phlatfformau priodol. |
| Mae'r adroddiadau sefydliadol yn adlewyrchu'r adborth a gynigiwyd gan bob corff allanol e.e., Llais (Corff Llais y Dinesydd), Arolygiaeth Iechyd Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac unrhyw gorff rheoleiddiol/statudol arall. | Mae adroddiadau'n dangos bod sylwadau a wnaed ar ran y cyhoedd ac adborth i'r sefydliad wedi eu cynnwys a'u hystyried. | Bydd y sefydliad yn adolygu ei sianeli cyfathrebu i sicrhau ei fod yn hyrwyddo rôl yr holl gyrff rheoleiddiol/statudol wrth gynhyrchu adroddiadau. |

# Atodiad A: Dogfen Broses Arolygon Cenedlaethol

Mae arolygon cenedlaethol yn cael eu goruchwylio gan Weithrediaeth y GIG yn unol â'r map ffordd ar gyfer arolygon cenedlaethol. Mae'r broses lywodraethu ar gyfer arolygon cenedlaethol yn cael ei hwyluso gan dîm canolog System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru (OfWCMS).

- Mae'r person neu'r grŵp sy'n cynnig yr arolwg cenedlaethol yn gyfrifol am gysylltu ac ymgysylltu â'r Cyfarwyddwr Gweithredol priodol ym mhob sefydliad er mwyn ennyn cefnogaeth i gynnal yr arolwg cenedlaethol.
- Bydd y person neu'r grŵp sy'n cynnig yr arolwg cenedlaethol yn mynychu cyfarfod Rhwydwaith Adborth Profiad Pobl tîm Dysgu a Diogelwch Cronfa Risg Cymru i gyflwyno eu harolwg.
- Rhaid llenwi a chyflwyno ffurflen gais arolwg cenedlaethol, gyda chwestiynau perthnasol yr arolwg, i dîm canolog System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru (OfWCMS) drwy e-bostio **OnceForWales.CMS@wales.nhs.uk**.
- Bydd tîm OfWCMS yn cydnabod bod y ffurflen gais a'r arolwg wedi cyrraedd ac yn trefnu i'r person neu gynrychiolydd o'r grŵp sy'n cynnig yr arolwg cenedlaethol i ddod i gyfarfod y Bwrdd Golygyddol Cenedlaethol.
- Bydd yr holl arolygon cenedlaethol arfaethedig yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Golygyddol Arolygon Cenedlaethol.
- Ar ôl ei chymeradwyo gan y Bwrdd Golygyddol Arolygon Cenedlaethol, bydd y ffurflen gais am arolwg cenedlaethol yn cael ei llofnodi gan Arweinydd y System Genedlaethol ar gyfer System Adborth Profiad Cymru a'i storio gan dîm canolog OfWCMS.
- Bydd angen i'r person neu'r grŵp sy'n cynnig yr arolwg cenedlaethol drefnu ei gyfieithu i'r Gymraeg ac unrhyw iaith arall yr hoffent gyflwyno'r arolwg ynddi.
- Bydd tîm canolog OfWCMS yn cysylltu ag Arweinwyr System Profiad Adborth a'r cyflenwr er mwyn bwrw ymlaen â'r camau gwahanol sydd eu hangen.
- Bydd y person neu'r grŵp sy'n cynnig yr arolwg cenedlaethol yn gyfrifol am nodi a chysylltu â'r timau o fewn y sefydliadau a fydd yn cyflwyno'r arolwg yn lleol.
- Bydd y timau sy'n cyflwyno'r arolwg yn lleol yn gyfrifol am gysylltu ag arweinydd y system Profiad Adborth o fewn y sefydliadau i sicrhau bod adroddiadau adborth wythnosol yn cael eu sefydlu'n gywir.
- Bydd tîm canolog OfWCMS, Arweinwyr y System Profiad Adborth, y cyflenwr, y person neu'r grŵp sy'n cynnig yr arolwg cenedlaethol a'r timau sy'n gyfrifol am gyflwyno'r arolwg yn lleol, yn cytuno ar ddyddiad lansio.
- Bydd y cyflenwr, ar adeg y cytunwyd arno, yn hwyluso'r gwaith o drosglwyddo data'r arolwg a gedwir mewn systemau sefydliadau, i'r offeryn dadansoddi cenedlaethol.
- Bydd tîm canolog OfWCMS yn rheoli mynediad at yr offeryn dadansoddol cenedlaethol a'r data a gynhyrchir o'r system hon, yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd Golygyddol Arolygon Cenedlaethol a chan ddilyn Egwyddorion GDPR.
- Bydd tîm canolog OfWCMS yn gweithio gydag Arweinwyr y System Profiad Adborth, y cyflenwr, y person neu'r grŵp sy'n cynnig yr arolwg cenedlaethol a'r timau sy'n gyfrifol am gyflwyno'r arolwg yn lleol, i gytuno ar setiau data ar gyfer cynhyrchu adroddiadau cenedlaethol yn yr offeryn dadansoddol cenedlaethol ac mewn systemau lleol.

# Atodiad B: Arolwg Profiad Pobl

## Eich Profiad gyda GIG Cymru

Mae eich profiad o ofal yn bwysig i ni. Gall hyn fod yn apwyntiad gyda'ch meddyg neu'ch ymwelydd iechyd, arhosiad yn yr ysbyty, ymweliad â'r adran cleifion allanol, neu rywbeth arall. Byddem yn ddiolchgar pe baech chi'n llenwi'r arolwg hwn i'n helpu ni i ddeall hyn yn well.

Mae'r cwestiynau'n seiliedig ar y pethau y mae cleifion wedi'u dweud sydd bwysicaf iddynt. Byddwn yn gofyn cwestiynau i chi am **eich profiad diweddaraf o ofal iechyd**. Helpwch ni drwy roi eich barn onest.

Mae pedwar opsiwn ar gyfer y rhan fwyaf o gwestiynau a gofynnir i chi roi tic wrth ymyl yr ateb sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n teimlo.

### Pa mor ddiweddar oedd y profiad rydych chi'n meddwl amdano?

- ☐ Yn yr wythnos ddiwethaf
- ☐ Rhwng 1 mis a 6 mis yn ôl
- ☐ Rhwng wythnos a mis yn ôl
- ☐ Dros 6 mis yn ôl

### Gan feddwl am y profiad hwn:

**1. Oedd yr amser roeddech chi'n aros:**

- ☐ Llawer byrrach na'r disgwyl
- ☐ Ychydig yn fyrrach na'r disgwyl
- ☐ Yn iawn
- ☐ Ychydig yn hirach na'r disgwyl
- ☐ Llawer hirach na'r disgwyl

**2. Oeddech chi'n teimlo eich bod wedi cael gofal da?**

- ☐ Bob tro
- ☐ Fel arfer
- ☐ Weithiau
- ☐ Byth

**3. Gawsoch eich trin ag urddas a pharch?**

- ☐ Bob tro
- ☐ Fel arfer
- ☐ Weithiau
- ☐ Byth

**4a. Beth yw eich dewis iaith ar gyfer cyfathrebu?**

- ☐ Cymraeg
- ☐ Wrdw
- ☐ Gwjarati
- ☐ Saesneg
- ☐ Portiwgaleg
- ☐ Eidaleg
- ☐ Pwyleg
- ☐ Sbaeneg
- ☐ Iaith Arwyddion Prydain
- ☐ Rwmaneg
- ☐ Arabeg
- ☐ Arall – nodwch
- ☐ Pwnjabeg
- ☐ Bengaleg

**4b. Oeddech chi'n gallu cyfathrebu yn eich dewis iaith?**

☐ Bob tro ☐ Fel arfer ☐ Weithiau ☐ Byth

**5. Oeddech chi'n teimlo bod pobl yn gwrando arnoch chi?**

☐ Bob tro ☐ Fel arfer ☐ Weithiau ☐ Byth

**6. Gawsoch chi eich cynnwys gymaint ag oeddech chi'n dymuno mewn penderfyniadau am eich gofal?**

☐ Bob tro ☐ Fel arfer ☐ Weithiau ☐ Byth

**7. Gafodd pethau eu hesbonio i chi mewn ffordd y gallech chi eu deall?**

☐ Bob tro ☐ Fel arfer ☐ Weithiau ☐ Byth

## Gan feddwl am eich profiad cyffredinol

**8. Sut fyddech chi'n graddio eich profiad cyffredinol?**

☐ Gwael iawn ☐ Gwael ☐ Ddim yn dda nac yn wael ☐ Da ☐ Da iawn

9. Oedd unrhyw beth arbennig o dda am eich profiad yr hoffech ddweud wrthym amdano?

10. Oedd unrhyw beth arbennig o ddrwg am eich profiad yr hoffech ddweud wrthym amdano?

## Diolch am roi o’ch amser i ateb y cwestiynau hyn

# Atodiad C

## Monitro Cydraddoldeb

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yn cael parch teg a chyfartal.

Beth bynnag yw eich oedran, anabledd, ethnigrwydd, ffydd, hunaniaeth rywiol, neu o ran ailbennu rhywedd, gallwch ddisgwyl gael eich trin ag urddas. Gallwch ein helpu i gyflawni hyn drwy ddarparu'r wybodaeth isod.

Caiff y data ei ddefnyddio at ddiben monitro yn unig a'i drin yn gwbl gyfrinachol. Ni fydd neb yn cael gwybod pwy ydych chi.

**1. Beth yw eich oedran?**

- ☐ 0-15 oed
- ☐ 16-24 oed
- ☐ 25-34 oed
- ☐ 35-44 oed
- ☐ 45-54 oed
- ☐ 55-64 oed
- ☐ 65-74 oed
- ☐ 75+ oed
- ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

**2. Beth yw eich rhywedd?**

- ☐ Gwryw
- ☐ Benyw
- ☐ Arall
- ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

**3. Pan gawsoch eich geni, a gawsoch eich disgrifio fel:**

- ☐ Gwryw
- ☐ Benyw
- ☐ Arall
- ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

**4. Ydy eich gallu i wneud gweithgareddau pob dydd yn cael ei leihau gan broblem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu sy'n debygol o bara, o leiaf 12 mis?**

- ☐ Ydy, yn fawr
- ☐ Ydy, ychydig
- ☐ Ddim o gwbl
- ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

**5. Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych yn ystyried eich hun?**

- ☐ Heterorywiol neu 'strêt'
- ☐ Hoyw neu lesbiaidd
- ☐ Deurywiol
- ☐ Arall
- ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

**6. Beth yw eich crefydd?**
(Dewiswch yr opsiwn sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o'ch crefydd)

- ☐ Dim crefydd
- ☐ Hindŵaeth
- ☐ Islam
- ☐ Unrhyw grefydd arall
- ☐ Cristion (pob enwad)
- ☐ Iddewiaeth
- ☐ Siciaeth
- ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud
- ☐ Bwdhaeth

**7. Beth yw eich grŵp ethnig?**
(Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio orau eich grŵp neu gefndir ethnig)

**Gwyn**

- ☐ Cymreig
- ☐ Seisnig
- ☐ Albanaidd
- ☐ Prydeinig
- ☐ Gwyddelig
- ☐ Gogledd Iwerddon
- ☐ Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- ☐ Unrhyw gefndir gwyn arall

**Grwpiau cymysg / amlethnig**

- ☐ Gwyn a Du Caribïaidd
- ☐ Gwyn a Du Affricanaidd
- ☐ Gwyn ac Asiaidd
- ☐ Unrhyw grwpiau cymysg / amlethnig eraill

**Asiaidd / Asiaidd Prydeinig**

- ☐ Indiaidd
- ☐ Pacistanaidd
- ☐ Bangladeshaidd
- ☐ Tsieineaidd
- ☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall

**Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig**

- ☐ Affricanaidd
- ☐ Caribïaidd
- ☐ Unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall

**Grŵp ethnig arall**

- ☐ Arabaidd
- ☐ Unrhyw grŵp ethnig arall
- ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

## Diolch am roi o'ch amser i ateb y cwestiynau hyn

# Atodiad D

## Y Pecyn Cymorth Straeon Digidol – Defnyddio Straeon i Wella Ansawdd

Ym mis Medi 2021, cytunodd Cyfarwyddwyr Nyrsio Cymru y byddai straeon digidol yn ffordd allweddol o gasglu adborth a dysgu i wella ein gwasanaethau. Mae'r pecyn cymorth hwn yn ymdrin â'r fethodoleg a'r wybodaeth sydd eu hangen ar bawb sy'n recordio straeon yn ddigidol, sy'n ymwneud ag adborth unigol a phrofiadau personol o unrhyw rai o'r gwasanaethau iechyd a ddarperir trwy GIG Cymru.

Datblygwyd y pecyn cymorth hwn mewn partneriaeth â holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Mae i'w ddefnyddio ar draws yr holl raglenni, gwasanaethau a swyddogaethau a ddarperir dan ymbarél GIG Cymru lle mae ansawdd a gwelliant yn flaenoriaeth.

Gallwch agor y pecyn cymorth hwn drwy'r ddolen ganlynol: **Pecyn Cymorth Straeon Digidol (sharepoint.com)**